infuse

GWASANAETHAU ARLOESOL Y DYFODOL
INNOVATIVE FUTURE SERVICES

# Rydyn ni'n chwilio am arweinwyr y dyfodol sy'n awyddus i wella gwasanaethau cyhoeddus.

## Ymunwch â charfan ddeinamig o wneuthurwyr o bob rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddysgu, adeiladu a rhwydweithio i greu gwasanaethau arloesol y dyfodol.

Mae Infuse yn lle diogel lle mae dysgu, arbrofi a phrofi yn dod ynghyd i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol; boed hynny'n golygu mynd i'r afael â'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i ddiwallu anghenion newidiol y rhanbarth, neu ymdrin â'r agenda datgarboneiddio sy'n cyflymu i fodloni ymrwymiad Cymru i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

### Beth mae'r rhaglen yn ei gynnwys?

Dros chwe mis, bydd swyddogion yn cwblhau tri mis o sesiynau a gyflwynir gan arweinwyr y sector sydd ar y blaen gyda'n heriau mwyaf. Bydd arbenigwyr yn eu maes yn rhannu enghreifftiau o arfer da o bob rhan o'r byd ac yn archwilio sut y gallwn addasu neu fabwysiadu'r syniadau hyn i ddiwallu ein hanghenion.

Yn dilyn hyn ceir tri mis o arbrofi a phrofi syniadau yn ein swyddi bob dydd, y prosiect haf, gyda chymorth a chefnogaeth drwy'r cyfan.

Ar ddiwedd y rhaglen, byddwch yn ymuno â rhwydwaith gyffrous o alumni Infuse, fydd yn parhau i newid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn y rhanbarth.

## Wythnos enghreifftiol Infuse:

**Dydd Mawrth (AM)**
Sesiwn 1 - Sut allaf i ddod â'r data cywir ynghyd i ddatrys fy mhroblem? (1 awr)
Sesiwn 2 - Dulliau dadansoddi data (1 awr)

**Dydd Iau (AM)**
Sesiwn 3 - Cefnogaeth thema: Datgarboneiddio'n gyflymach (90 munud)
Sesiwn 4 - Cefnogaeth thema: Cymunedau Cefnogol (90 munud)

## Sut mae'n cyd-fynd â fy swydd bob dydd?

Mae uwch arweinwyr ym mhob awdurdod lleol wedi ymrwymo i gefnogi Infuse. Caiff swyddogion gefnogaeth i sicrhau amser yn ystod yr wythnos i fanteisio'n llawn ar y rhaglen a chael digon o le i gymryd rhan yn llawn.

## Beth mae cyfranogwyr blaenorol yn ei ddweud?

"... mae'n gyfle gwych i ehangu eich rhwydwaith ac ymgolli mewn rhywbeth hollol wahanol."

".... byddwch chi'n dysgu pethau da iawn i'ch atgoffa pam rydych chi'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus."

"gwerth chweil ac yn werth ymuno os ydych chi'n awyddus i'ch datblygu eich hun a'ch maes gwaith."

## Am gael gwybod rhagor?

Anogwn chi i gysylltu â Rheolwr Ymgysylltu'r Rhaglen, Christina Martin a all egluro mwy am y rhaglen a'r amseru.
**christinamartin@monmouthshire.gov.uk**

Ceir rhagor o wybodaeth ar **www.monmouthshire.gov.uk/infuse/**

**Dilynwch ni ar Twitter a Linkedin**

Undeb Ewropeaidd / European Union — Llywodraeth Cymru / Welsh Government — Cronfa Gymdeithasol Ewrop / European Social Fund
Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region
YLab
monmouthshire sir fynwy